


# Newyddion o Un Llais Cymru:

Croeso i Rifyn 17 o E-fwletin Un Llais Cymru. Mae'r rhifyn yma yn llawn o'r wybodaeth ddiweddaraf am ein prosiect Argyfwng Costau Byw a'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, ynghyd â newyddion allweddol a chyfleoedd i gefnogi eich gwaith mewn cymunedau lleol.

---

## Newyddion

CAFFI TRWSIO CYMRU REPAIR CAFE WALES

Byddai Repair Café Cymru yn hoffi'ch gwahodd i ymuno â ni i wneud mis Chwefror yn fis atgyweirio ac yn fis cynaliadwyedd!

Fix it Feb yw ein hymgyrch flynyddol ar y cyd â Llywodraeth Cymru sy'n ysbrydoli unigolion, grwpiau ac sefydliadau i leihau gwastraff ac ailfywiogi eitemau sydd wedi torri.

Helpwch i ledaenu'r neges ac ymunwch â'r ymgyrch – dyma sut:

- **Adduned i Atgyweirio**: Ymrwymwch i drwsio un eitem yn ystod mis Chwefror.
  Mae pob gweithred fach yn gwneud gwahaniaeth mawr 🙂 beth am fynd ag eitem sydd wedi torri i'ch caffi atgyweirio lleol? Dyma fap sy'n dangos pob caffi atgyweirio yng Nghymru: Lleoedd – Repair Café Wales
- **Cyfryngau Cymdeithasol**: Rhannwch ein postiadau, graffeg a negeseuon gan ddefnyddio'r hashnod #FixItFeb a'ch annogwyr i ymuno â'r mudiad.

- **Cylchlythyrau a Gwefannau:** Cynhwyswch erthyglau a straeon thematig am atgyweirio yn eich cylchlythyrau ac ar eich gwefan i godi ymwybyddiaeth.
- **Eich Rhwydweithiau:** Postiwch am #FixItFeb ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol (mae gennym enghreifftiau i chi gopïo a gludo yn y PDF sydd ynghlwm).

Mae'r PDF sydd ynghlwm yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi a dolenni Google Drive i'r holl asedau y mae croeso i chi eu defnyddio.

Dewch i ni *drwsio'r mis Chwefror hwn!* 🤩

-----------------------------

## Newyddion Gweithredu ar Hinsawdd

Cylchlythyr

-----------------------------

YDCW Elusen Cefn Gwlad Cymru
CPRW The Welsh Countryside Charity

Rydym yn ysgrifennu ar ran CPRW (Ymgyrch Diogelu Cefn Gwlad Cymru) i dynnu eich sylw at siarter newydd ei lansio, **Siarter ar gyfer Trawsnewid Teg i Net Sero**, a ddatblygwyd ar y cyd gan gynghrair o grwpiau cymunedol ac amgylcheddol ledled Cymru. Hoffem wybod a fyddai Un Llais Cymru yn gallu ei dosbarthu i bob cyngor tref a chymuned ar draws Cymru ar ein rhan.

Wrth i Gymru fwrw ymlaen â'i huchelgeisiau net sero, mae'r Siarter hon yn nodi egwyddorion sylfaenol i sicrhau bod y broses yn deg, yn ddemocrataidd ac yn parchu ein tirweddau, ein treftadaeth a'n cymunedau. Mae'r prif ymrwymiadau'n cynnwys:

- Datgelu cynigion datblygu'n gynnar ac yn dryloyw.
- Ymgysylltu uniongyrchol ac ystyrlon â'r cymunedau yr effeithir arnynt.
- Moratoriwm ar gymeradwyo datblygiadau newydd nes bod yr effeithiau cronnus wedi'u hasesu'n briodol.
- Sicrhau bod cymunedau'n cael mynediad teg at gyngor cyfreithiol a thechnegol.
- Diogelu cryfach i dirweddau a threftadaeth Cymru a lles hirdymor cymunedau.

Credwn fod y Siarter hon yn cynnig fframwaith credadwy i alluogi Cymru i gyflawni ei nodau hinsawdd tra'n diogelu atebolrwydd democrataidd, uniondeb amgylcheddol a chyfiawnder cymdeithasol. Mae CPRW yn annog pob plaid

wleidyddol, a holl Aelodau'r Senedd, i gefnogi ac ymgorffori ei hegwyddorion yn ffurfiol cyn etholiad y Senedd yn 2026.

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu adolygu'r Siarter (yma) ac ystyried rhoi eich cefnogaeth. Os hoffech ragor o wybodaeth neu drafod cynigion y Siarter a'u harwyddocâd i'ch etholaeth, mae croeso i chi gysylltu â ni.

-------------------------------

## Rhestrau Treftadaeth Fyw

**Mwy o Manylion**

Dw i'n gobeithio eich bod eisoes yn ymwybodol fod Rhestrau Treftadaeth Fyw'r DU bellach yn agored i gynigion. Amgaeaf ragor o wybodaeth a chanllawiau syml ar sut i gyflwyno eitemau i'w hystyried ar gyfer y rhestrau.

Rydym yn awyddus bod cymunedau ledled Cymru yn ymwybodol o'r cyfle hwn ac yn cael eu cefnogi i gymryd rhan – mae cyflwyno eitem at y rhestr yn gam cadarnhaol at ddogfennu, diogelu, a chefnogi ein traddodiadau ar gyfer y dyfodol.

Mae croeso i chi rannu'r ddogfen hon gyda'ch rhanddeiliaid, cyd-weithwyr, ac unrhyw un arall rydych yn meddwl bysa'n briodol.

Mae Amgueddfa Cymru yn cynnal sesiynau anffurfiol i drafod y broses yn wythnosol – os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu un o'r sesiynau hyn, rhowch wybod, neu e-bostiwch treftadaethfyw@amgueddfacymru.ac.uk yn uniongyrchol am sgwrs.

-------------------------------




**Mae angen inni fynd i'r afael ag oedraniaeth drwy newid y ffordd y mae pobl yn meddwl ac yn gweithredu ynghylch heneiddio**.

Dyna pam, y mis nesaf, byddwn yn lansio trydydd blwyddyn ymgyrch Age Without Limits gyda hysbyseb 12 wythnos ar draws y wlad sy'n tynnu'r llygad, i annog pobl i gwestiynu ac herio oedraniaeth.
.

Cylchlythyr ( Saesneg yn unig)

------------------------------

**O FAN-GWAN I BOETHFAN: EE YW'R CYNTAF YN Y DU I DDARPARU SIGNAL I BOBL PENMACHNO**

Datganiad i'r wasg




------------------------------

**Deddf Seilwaith (Cymru) 2024**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet

------------------------------

Chwarae Cymru Play Wales

**Cyflwr Chwarae 2025.**

**Eiriol dros chwarae plant: maniffesto i Gymru**

**Mae Chwarae Cymru yn galw ar i lywodraeth nesaf Cymru barhau â'i**

Yn ein hadroddiad newydd, ***Cyflwr Chwarae 2025***, rydym yn cyflwyno dadansoddiad o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae (ADCh) a Chynlluniau Gweithredu Chwarae awdurdodau lleol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2025.

**hymrwymiad hirsefydlog i flaenoriaethu chwarae. Rydym yn gofyn i bob plaid wleidyddol i ddal ati i gefnogi gweithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae statudol.**

**Adroddiad**

**Manifffesto**

------------------------------

## Cylchlythyr Awdit Cymru

**Tanysgrifiwch yma**

------------------------------

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Bwletin Trafnidiaeth Cymru

---

## Werth ffeindio amser i'w wylio ar wefan Un Llais Cymru:

### Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau:




**Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau :**

Mae Un Llais Cymru wedi cyhoeddi trefniadau enghreifftiol i helpu Cynghorau i redeg yn effeithiol a chyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Rydym hefyd yn dosbarthu canllawiau statudol a chanllawiau eraill.

Rydym yn adolygu'r trefniadau hyn yn rheolaidd, gan helpu Cynghorau i gynnal fframwaith llywodraethu cadarn

**Cliciwch ar y ddolen i weld pa ddogfennau sydd ar gael**

**Mwy o Fanylion**

......................

## Nodiadau Datblygu Ymarfer:




**Nodiadau Datblygu Ymarfer :**

Mae Un Llais Cymru wedi creu Nodiadau Datblygu Ymarfer – canllawiau syml i helpu Cynghorau i ddeall tasgau blynyddol allweddol ac i roi cyngor ar weithgareddau eraill y cyngor.

Wrth i Gynghorau edrych tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, efallai ei fod yn amser da i edrych eto ar y cyngor a gyhoeddwyd gennym am y broses bwysig hon. Gall unrhyw Cyngor sydd yn aelod ymweld â'r Nodyn Datblygu Ymarfer ar ein gwefan. Mae Rhif 17 yn cynnig rhai awgrymiadau defnyddiol.

**Nodau Datblygu Ymarfer i gyd iw gweld yma**

## Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru:




**Cynghorwyr sydd yn dymuno mynychu hyfforddiant - cysylltwch 3 clerc er mwyn iddynt llogi lle ichi ar y sesiwn penodol**

Cliciwch yma i llogi lle

# SWYDDI

## Swyddi gwag yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref:




**Gweler pob swydd gwag yma**

**Swyddi Gwag:**

Fel rhan o'r aelodaeth flynyddol, mae Un Llais Cymru yn cynnig cyfle i Gynghorau Cymuned a Thref sy'n aelodau hysbysebu swyddi gwag sy'n ymwneud â'r sector, megis Clercod, Swyddogion Cyllid Cyfrifol, a rolau staff eraill.

Mwy o Fanylion

## Swyddi Llywodraeth Cymru

Mae gyrfa yng Ngwasanaeth Sifil Cymru yn cynnig:

- cyfle i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru
- dysgu yn y swydd a chyfleoedd da i ddatblygu gyrfa
- oriau gweithio hyblyg a buddion cynhwysfawr.

Mae yna wahanol ffyrdd o ymuno â'r gwasanaeth sifil yng Nghymru.

Cyngor y Gweithlu Addysg - Penodi Aelodau - 18.02.2026

Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru - Penodi Cadeirydd - 18.02.2026

---



## Cadwch y Dyddiad

**Gwella ein Lleoedd Lleol – Astudiaethau Enghreifftiol a Diweddariadau Cynllunio o Gymru**

**Dyddiad: 19 Mawrth 2026, 10:30yb–1:30yp (ar-lein:Teams)**
**£53 yr un**

**Cynhadledd Cenedlaethol a Seremoni Gwobrau Un Llais Cymru**

1af GORFFENNAF 2026

**Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru**

30ain MEDI 2026

"Gwella ein Lleoedd Lleol – Astudiaethau Enghreifftiol a Diweddariadau Cynllunio o Gymru" - Un Llais Cymru

---

## Diweddariadau Prosiectau a Ariannwyd gan Un Llais Cymru:

### Newyddion am Brosiect Argyfwng Costau Byw

## Ein gweminar nesaf




### Mynd i'r Afael â Thlodi Plant Gyda'n Gilydd: Camau Ymarferol ar gyfer Cynghorau Lleol

Child poverty is rising across Wales, and the ongoing Cost of Living Crisis is intensifying the pressures families face. This webinar will explore the realities behind the statistics, highlight the challenges affecting children and young people, and share practical actions Community and Town Councils can take to provide meaningful support.

Dydd Mercher 11 Chwefror 10am - 12.30pm

Cofrestrwch yn Awr

## Grantiau & Chyfleodd




### Grantiau ac Chyfleodd Ariannol Posib:

Chwilio am gyfleoedd cyllido i gefnogi eich prosiectau lleol?
Rydyn ni wedi paratoi rhestr o'r grantiau a chyfleoedd cyllido allai fod ar gael ichi, gan gynnwys dolenni a gwybodaeth am sut i wneud cais.

Gwasgwch ar y ddolen i gael manylion llawn a sut i wneud cais

Mwy o Fanylion

---

## Lleoedd lleol ar gyfer Natur




---

**Un Llais Cymru / One Voice Wales**

24c Stryd Y Coleg,

Rhydaman

SA18 3AF

Mae'r E - Bwletin yma yn cael ei dosbarthu i bob Cyngor yng Nghymru . Dylid nodi os ydych yn dad tanysgrifio mi fyddwch yn colli mynediad i'r ddau fersiwn Cymraeg a Saesneg a'r cylchlythyr . Cysylltwch a kbrown@unlliascymru.cymru am cymorth efo hyn.

Dad-Tanysgrifio / Unsubscribe

SENT BY mailer lite